**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
17 Rhagfyr 2025

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau 2025") yn nodi gofynion a safonau maeth ar gyfer bwyd a diod a ddarperir i ddisgyblion cofrestredig ar ddiwrnod ysgol gan awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion cynradd a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir), p'un a ddarperir y bwyd a'r ddiod ar fangre ysgol neu mewn man arall.

1.2 Mae Rheoliadau 2025 yn nodi'r mathau o fwyd a diod y mae'n rhaid eu darparu ac na chaniateir eu darparu a pha mor aml y mae'n rhaid darparu bwydydd penodol neu ba mor aml na chaniateir darparu bwydydd penodol. Maent hefyd yn rhagnodi cynnwys ciniawau ysgol cyfartalog o ran egni a maethynnau.

1.3 Bydd y Canllawiau Statudol, sy'n cyd-fynd â Rheoliadau 2025, yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi ar ôl gosod y Rheoliadau (ar ôl y cyfnod diddymu).

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth (ymhlith materion eraill) ynghylch hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion mewn ysgolion a gynhelir ac yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgolion a gynhelir neu mewn man arall i ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol.

3.2 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau 2025 drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 4(1) a (2) ac (8) a 10(2) a (3) o'r Mesur.

3.3 Fel sy'n ofynnol gan adran 4(11) o'r Mesur, mae camau wedi'u cymryd i ganfod barn disgyblion ac ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol. Ceir rhagor o fanylion am hyn ym mharagraff 5.2.

3.4 Mae adran 4(1) o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw mewn cysylltiad â bwyd neu ddiod a ddarperir ar fangre unrhyw ysgol a gynhelir, neu fwyd a diod a ddarperir mewn man ac eithrio mangre ysgol gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ar gyfer unrhyw ddisgybl cofrestredig yn yr

ysgol. Mae adran 4(2) yn darparu bod hyn yn cynnwys pŵer i bennu safonau maeth neu ofynion maeth eraill, y bwyd neu'r ddiod i beidio â'u darparu ac uchafsymiau o ran braster, braster dirlawn, halen a siwgr y caniateir i'r bwyd neu'r ddiod eu cynnwys. Nid yw'r pŵer yn gymwys i fwyd neu ddiod y deuir ag ef/hi i fangre ysgol a gynhelir gan unrhyw berson i'w fwyta neu i'w hyfed gan y person hwnnw ei hun (adran 4(3)). Mae adran 4(8) yn darparu y caiff rheoliadau ragnodi gofynion gwahanol mewn perthynas â dosbarthau neu ddisgrifiadau gwahanol o ysgol, gofynion gwahanol ar gyfer bwyd neu ddiod a ddarperir gan neu ar gyfer dosbarthau neu ddisgrifiadau gwahanol o berson a gofynion sy'n gymwys yn ystod cyfnodau gwahanol o'r dydd.

3.5 Mae adran 10(2) o'r Mesur yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol, gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol a gwneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, arbed neu drosiannol y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda. Mae adran 10(3) yn darparu y caniateir i unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Mesur gael ei arfer mewn perthynas â'r holl achosion hynny yn ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol neu ddosbarth penodol o achosion.

3.6 Mae Rheoliadau 2025 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn yn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ("y rheoliadau cyfredol") yn gymwys i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) sy'n darparu bwyd a diod i ddisgyblion cofrestredig, p'un a ddarperir y bwyd a'r ddiod ar fangre'r ysgol neu mewn man arall, ac i bobl eraill ar fangre'r ysgol. Mae Rheoliadau 2025 (ac eithrio rheoliad 6 ac Atodlen 6) yn gymwys i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion cynradd a gynhelir sy'n darparu bwyd a diod i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd a gynhelir, p'un a yw'r bwyd a'r ddiod yn cael eu darparu ar fangre'r ysgol neu mewn man arall. At ddibenion Rheoliadau 2025, ystyr "ysgol gynradd a gynhelir" yw ysgol a gynhelir sy'n darparu addysg gynradd (pa un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio). Ystyr "ysgol a gynhelir" yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru neu ysgol feithrin a gynhelir (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1)).

4.2 Mae rheoliad 6 ac Atodlen 6 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r rheoliadau cyfredol fel eu bod yn gymwys i ysgolion uwchradd a gynhelir o

ddyddiad dod i rym Rheoliadau 2025 yn unig. Maent hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau eraill i'r rheoliadau cyfredol i gywiro gwallau sillafu a drafftio technegol – nid yw hyn yn newid y polisi ond yn ychwanegu eglurder.

4.3 Os yw ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd, bydd Rheoliadau 2025 yn gymwys i fwyd a diod a ddarperir i ddisgyblion cofrestredig ym Mlwyddyn 6 ac is yn unig. Bydd y rheoliadau cyfredol, fel y'u diwygiwyd, yn parhau i fod yn gymwys i fwyd a diod a ddarperir i ddisgyblion cofrestredig ym Mlwyddyn 7 ac uwch ac i unrhyw un arall ar fangre'r ysgol.

4.4 Bu pryderon ers amser am nifer y plant sydd dros eu pwysau neu'n ordew yng Nghymru[1], a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar iechyd a lles, yn enwedig mewn perthynas â lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gwyddom fod tua un o bob pedwar (tua 9,000) o'n plant pedair a phump oed sy'n dechrau'r ysgol bob blwyddyn dros eu pwysau neu'n ordew[2]. Mae lefelau gordewdra ymhlith plant yn waeth yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae gordewdra difrifol ymhlith plant yn parhau i gynyddu. Mae deiet gwael yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hynny.

4.5 Mae'n hysbys hefyd bod plant sy'n bwyta'n dda yn dysgu'n well, yn teimlo'n well, ac yn tyfu'n gryfach. Mae ein hysgolion yn lleoedd hanfodol lle mae plant yn treulio tua 40% o'u horiau effro, gan helpu i lunio arferion bwyta gydol oes a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig heddiw pan:

- Mae bwyd llai iach yn aml yn rhatach ac yn haws dod o hyd iddo nag opsiynau iach.
- Mae un o bob pedwar plentyn oedran dosbarth derbyn dros eu pwysau neu'n ordew pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.
- Nid yw llawer o blant yn cael y maeth cytbwys sydd ei angen arnynt i ffynnu.

4.6 Ers i'r rheoliadau cyfredol gael eu cyflwyno yn ôl yn 2013, mae argymhellion Deietegol Llywodraeth y DU wedi'u diwygio ar ôl cyhoeddi cyngor i bedair Llywodraeth y DU gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN). Os na chymerir camau i ddiwygio'r rheoliadau cyfredol i adlewyrchu'r cyngor gwyddonol diweddaraf, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y mwyaf o'r effaith y gall y ddarpariaeth bwyd ysgol ei chael i leihau anghydraddoldebau a chefnogi datblygiad arferion bwyta da gydol oes.

---

[1] Mae tudalen 10 o adroddiad gordewdra Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod chwarter y plant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew Gordewdra yng Nghymru

[2] Eliminating weight stigma - guidelines for BDA communications - British Dietetic Association (BDA)

4.7 Nod Rheoliadau 2025, sy'n seiliedig ar argymhellion dietegol diweddaraf Llywodraeth y DU, fel y soniwyd uchod, yw galluogi plant oedran ysgol feithrin a chynradd mewn ysgolion a gynhelir i gael mynediad at fwyd iach yn ystod oriau ysgol, gan eu helpu i ddatblygu arferion bwyta iach.

4.8 Mae diwygio'r rheoliadau cyfredol yn helpu i sicrhau bod dysgwyr oedran ysgol gynradd mewn ysgolion a gynhelir yn cael mynediad at fwyd ysgol mwy maethlon a allai helpu i leihau'r risg o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â diet fel gordewdra, canser, clefyd coronaidd y galon a diabetes math 2.

4.9 Bydd Rheoliadau 2025 yn berthnasol i ysgolion cynradd a gynhelir yn genedlaethol, gan sicrhau y bydd darparwyr bwyd ysgol ar draws pob ardal awdurdod lleol yn:

- cynnig mwy o ffrwythau a llysiau i helpu plant Cymru i gael eu "pump y dydd";
- cynnwys carbohydradau â llawer o startsh (fel grawn cyflawn) oherwydd bod tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant Cymru yn cael digon o ffeibr;
- cyfyngu ar fwydydd crwst, pwdinau a bwydydd wedi'u pobi a felyswyd, ynghyd â bwydydd wedi'u ffrio, yn seiliedig ar y cyngor deietegol diweddaraf;
- cynnig llai o gig wedi'i brosesu a chyfyngu ar ddewisiadau amgen wedi'u prosesu i bysgod a chig, gan y gallant fod yn uchel mewn halen a braster dirlawn;
- cynnwys cig coch yn gymedrol er mwyn sicrhau bod plant yn cael budd o'r maethynnau y mae'n eu cynnig heb fwyta gormod ohono;
- gwahardd diodydd llawn siwgr, sy'n gysylltiedig â gordewdra a phydredd dannedd.

4.10 Er bod llawer o ffactorau yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd plant, mae tystiolaeth yn dangos bod gofynion bwyd a safonau maeth cadarn, a roddir ar waith fel rhan o ddull ysgol gyfan, yn gallu gwella arferion deietegol yn sylweddol. Mae atgyfnerthu'r rheoliadau hyn yn gam hollbwysig i sicrhau bod bwyd mewn ysgolion yn llywio ymddygiadau bwyta iach gydol oes ac yn gwella canlyniadau iechyd a deilliannau addysg.

4.11 Yn ogystal, byddai diweddaru'r rheoliadau cyfredol yn bodloni ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach i '*weithredu rheoliadau bwyd ysgol diwygiedig'* sy'n unol â'r gofynion a'r canllawiau diweddaraf. Mae hyn yn rhan o flaenoriaeth genedlaethol i alluogi ein lleoliadau addysg i fod yn lleoedd lle mae iechyd corfforol a meddyliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i *'leihau effaith iechyd gwael ac anghydraddoldeb'.*

4.12 Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru adroddiad ar 'Effeithiau Prydau Ysgol am Ddim i Bawb'[3] ym mis Hydref 2024 a nododd (tudalen 30) fod cynnwys maeth ciniawau ysgol yn hollbwysig oherwydd bod cinio ysgol sy'n cyrraedd safonau maeth da yn debygol o wella canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, pwysau a chyrhaeddiad.

4.13 At hynny, mae ystyried a chysoni'r ddarpariaeth â'r argymhellion iechyd diweddaraf ar gyfer maeth plant yn cyfrannu at yr ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflawni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o greu *'Cymru Iachach'* a *'chymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol'.*

**5. Ymgynghori**

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â sawl cam ymgysylltu ac ymgynghori i helpu i ddatblygu ei pholisïau mewn perthynas â bwyd ysgol.

5.2 Rhwng 20 Mai 2025 a 29 Gorffennaf 2025 gwnaethom geisio barn ar ddrafft o Reoliadau 2025 a'r canllawiau cysylltiedig. Fel rhan o'r broses hon, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pobl ifanc, rhieni a gwarcheidwaid, arlwywyr, athrawon, cyflenwyr bwyd ysgol a chynhyrchwyr lleol.

5.3 Cafodd y broses gyfanswm o 2,570 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys bron i 1,000 gan ddysgwyr. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nac un grŵp demograffig yn y prif ymgynghoriad, a chafwyd y nifer uchaf o ymatebion gan rieni a gofalwyr (53%), ac yna dysgwyr ysgolion cynradd (19.4%), dysgwyr ysgolion uwchradd (18.7%) a'r gweithlu addysg (13.7%). Daeth llai o ymatebion gan awdurdodau lleol, darparwyr arlwyo a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (2-3%), gyda chyfrannau llai gan ffermwyr, cyflenwyr a chynhyrchwyr lleol.

5.4 5.3 Darparwyd fersiwn i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghori hefyd. Daeth 53 o ymatebion i law ar gyfer y fersiwn plant a phobl ifanc, a 44 o ymatebion ar gyfer y fersiwn hawdd ei ddarllen. Ategwyd yr arolygon ymgynghori â gwaith ymgysylltu drwy gyfres o 16 o grwpiau ffocws (6 gyda rhieni/gofalwyr a 10 gyda dysgwyr o ysgolion ledled Cymru) a phecyn cymorth i'w gwblhau eu hunain, gan sicrhau ein bod yn cael adborth gan sampl ehangach o ddysgwyr.

<u>Ymatebion plant a phobl ifanc</u>

5.5 Ar y cyfan, roedd plant a phobl ifanc yn gefnogol i'r cynigion sy'n ymwneud â ffrwythau, llysiau a charbohydradau startslyd, yn ogystal â

[3] Adroddiad-Effeithiau-Prydau-Ysgol-am-Ddim-i-Bawb.pdf

newidiadau o ran cig, cig coch a physgod. Er ychydig yn is, roedd llawer iawn o gefnogaeth o hyd i newidiadau'n ymwneud â chig wedi'i brosesu, opsiynau nad ydynt yn gig a thatws wedi'u coginio mewn olew, bwydydd wedi'u ffrio, nwyddau pob a phwdinau wedi'u melysu, a chrwst. Er bod llawer yn gefnogol, mynegodd rhai bryderon ynghylch y cynigion ar gyfer diodydd, gan ffafrio diodydd meddal a sgwosh yn hytrach na dŵr plaen a diodydd sy'n seiliedig ar blanhigion. Mae llawer yn croesawu'r gwahaniaethu mewn maint dognau, gyda sawl un yn dweud nad yw'r maint dognau ar hyn o bryd yn ddigon mawr mewn ysgolion, ac o ganlyniad maent yn aml yn llwglyd. Roedd cefnogaeth i newidiadau i'r ddarpariaeth amser brecwast yn gymysg ar draws y rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Pan ofynnwyd iddynt am y canllawiau, dywedodd plant a phobl ifanc yn aml nad oeddent yn siŵr neu ddim yn gwybod.

5.6 Roedd mynediad a chael eu cynnwys yn bryderon allweddol, yn enwedig i blant â chyfyngiadau dietegol neu anghenion dysgu ychwanegol. Dim ond 44% o'r ymatebwyr oedd yn credu bod y canllawiau ar ddeietau arbennig yn glir, ac roedd galw am fwy o hyblygrwydd a gwell cefnogaeth i ddysgwyr niwroamrywiol. Codwyd materion ehangach ynghylch tegwch, gan gynnwys ansicrwydd bwyd, maint cyfyngedig dognau bwyd, a'r risg y bydd rhai grwpiau - fel plant mewn tlodi neu ag anableddau - yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Mae mwy o wybodaeth am yr effaith ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.7 Caiff yr effeithiau hyn eu lliniaru drwy egluro yn y Canllawiau sut y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol weithio gyda dysgwyr a'u teuluoedd i ddatblygu bwydlenni cynhwysol ac ystyried a oes unrhyw gymorth neu addasiadau pellach yn bosibl o ran gallu manteisio ar y ddarpariaeth o fwyd mewn ysgolion.

<u>Ymateb cyffredinol</u>

5.8 Pan holwyd ynghylch cynyddu'r ddarpariaeth o ffrwythau, llysiau ac i garbohydradau startslyd fod yn cynnwys o leiaf 50% o rawn cyflawn, roedd yr ymateb yn gadarnhaol i raddau helaeth, gyda 79.9% yn cytuno.

5.9 Derbyniodd y cynigion sy'n ymwneud â chig, cig coch a physgod a chyfyngu ar gigoedd wedi'u prosesu, gefnogaeth fwyafrifol, gyda 65.1% yn cytuno â'r cynigion ynghylch cig, cig coch a physgod, a 58.8% yn cytuno â chyfyngu ar gig wedi'i brosesu.

5.10 Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiynau'n holi'r ymatebwyr ynghylch cyfyngu ar brydau wedi'u seilio ar gaws, cyfyngu ar ddewisiadau cig a physgod amgen wedi'u prosesu a chyfyngu ar fwydydd wedi'u ffrio, nwyddau pob wedi'u melysu a phwdinau. Cytunodd 46.6% o'r ymatebwyr â chyfyngu ar brydau sy'n seiliedig ar gaws a chyfyngu ar ddewisiadau cig a physgod amgen wedi'u prosesu, fodd bynnag, dim ond 24.7% oedd yn

anghytuno, gyda 23.6% ddim yn siŵr. Roedd niferoedd uwch o ymatebwyr (56.9%) yn cefnogi cyfyngu ar fwydydd wedi'u ffrio, nwyddau pob wedi'u melysu, a phwdinau.

5.11 Roedd yr ymateb yn gadarnhaol i gyfyngu diodydd i ddŵr plaen, llaeth plaen a diodydd plaen sy'n seiliedig ar blanhigion i leihau faint o siwgr sy'n cael ei yfed drwy gael gwared ar opsiynau fel sudd ffrwythau, gyda 58.2% yn cytuno, yn enwedig ymarferwyr gofal iechyd, tra bod dysgwyr yn llai cefnogol. Gwyntyllodd rhai oedd yn niwtral neu'n wrthwynebol bryderon nad yw pob dysgwr yn hoffi dŵr neu laeth, gan rybuddio y gallai hyn achosi perygl o ddadhydradu, ac awgrymodd llawer y dylid caniatáu sgwosh neu ddewisiadau eraill di-siwgr mewn cymedroldeb. Pwysleisiodd rhai fod sudd ffrwythau yn cynnwys maetholion pwysig y gellid eu colli fel arall.

5.12 Roedd yr ymateb i'r cynnig i ddarparu dognau o feintiau mwy priodol trwy wahaniaethu rhwng y rhai yn y dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, a Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6, yn gadarnhaol i raddau helaeth, gyda 67.1% yn cytuno yn gyffredinol, a 75% o'r gweithlu addysg yn cytuno.

5.13 Pan ofynnwyd iddynt am y cynigion sy'n ymwneud â darpariaeth amser brecwast, cytunodd 55.8% o'r ymatebwyr, er bod sawl ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynnig i gael gwared ar sudd ffrwythau, yn hytrach yn dweud y dylai barhau i fod yn rhan o'r cynnig brecwast.

5.14 Yn dilyn adborth yr ymgynghoriad, gwnaed sawl diwygiad i Reoliadau arfaethedig 2025. Mae'r rhain yn cynnwys y cynnig sy'n ymwneud â 'phrydau wedi'u seilio ar gaws' yn cael eu disodli gan fwydydd 'ffa a chodlysiau', cyflwyno diffiniad cliriach ar gyfer cig wedi'i brosesu (y cyfeirir ato bellach fel 'cynnyrch cig penodedig') a dileu'r ddarpariaeth i bysgod gael ei ddal yn gynaliadwy.

<u>Effaith Ariannol</u>

5.15 Tynnodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiweddaru'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion sylw at bryderon rhai ymatebwyr am effaith ariannol bosibl y newidiadau arfaethedig. Roedd rhai awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhagweld y bydd cynnwys mwy o gynnyrch ffres yn cynyddu costau caffael bwyd. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid hyn fod eu cyllidebau eisoes o dan bwysau sylweddol, ac nad yw'r lefelau cyllid presennol yn cael eu hystyried yn ddigonol i gwrdd â chost ddisgwyliedig bwydydd iachach, grawn cyflawn. Disgwyliwyd pwysau ychwanegol ar gostau hefyd, ac nid oedd rhai ohonynt o ganlyniad uniongyrchol i gyflwyno Rheoliadau newydd. Roedd y rhain yn cynnwys prisiau bwyd cynyddol, yr angen am hyfforddiant i staff, uwchraddio posibl i seilwaith ceginau a darpariaeth ar gyfer dietau arbennig o ganlyniad i weithredu Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn

Ysgol Gynradd. Roedd pryderon hefyd am effaith ariannol y posibilrwydd o wastraff bwyd os nad yw'r prydau a gynigir yn addas i ddysgwyr.

5.16 Mae'r dadansoddiad hefyd yn nodi bod gan rai rhieni bryderon y gallent wynebu costau uwch os bydd eu plant yn dewis eithrio'u hunain o'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim os nad ydyn nhw'n hoffi'r cynnig newydd ac angen pecyn cinio yn lle hynny.

5.17 Awgrymwyd sawl strategaeth i helpu i reoli costau. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r defnydd o gigoedd drud, lleihau costau sy'n gysylltiedig â rhoi darpariaeth bwyd allan i gontractwyr preifat neu gyflenwyr oddi ar y safle, a chynyddu'r defnydd o fwydydd rhatach sy'n seiliedig ar blanhigion. Cynigiodd ymatebwyr eraill y gellid arbed arian drwy leihau nifer y pwdinau a gynigir a thrwy fynd i'r afael â gwastraff bwyd yn fwy effeithiol.

5.18 Yn gyffredinol, roedd ansicrwydd ynglŷn â'r effaith ar y gost. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo, er y gallai rhai elfennau o'r cynigion gynyddu costau, gallai eraill eu lleihau, gan wneud yr effaith net yn anodd ei ragweld . Mae lleiafrif o'r ymatebwyr yn disgwyl i gostau leihau oherwydd bod mwy o ddefnydd o fwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion a llai o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, yn ogystal â dognau llai o faint i fabanod. Mae rhai hefyd yn credu, er y gall costau godi yn y tymor byr, y gallai fod arbedion hirdymor, yn enwedig i'r GIG, o ganlyniad i well deilliannau o ran iechyd a dysgu i blant.

5.19 Roedd rhai o ymatebwyr awdurdodau lleol yn galw am fodelu costau yn fwy manwl, am gynnydd cyson mewn cyllid, a buddsoddi mewn seilwaith a hyfforddiant. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr y dylid ystyried y costau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn fel buddsoddiad iechyd cyhoeddus hirdymor, yn hytrach na baich ariannol neu rwystr i safonau cryfach.

5.20 Yn gryno, mae'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn datgelu ansicrwydd ynghylch y goblygiadau cost, gyda rhai ymatebion yn nodi cynnydd posibl ac eraill yn nodi arbedion. Pan wyntyllwyd pryderon, teimlwyd y byddai gwaith pellach, parhaus yn llywio dealltwriaeth hirdymor o oblygiadau diweddaru'r rheoliadau.

5.21 Mae’r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o’r ymatebion ar gael yn: Bwyta'n iach mewn ysgolion | LLYW.CYMRU

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr Opsiynau

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau polisi a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Nid ystyriwyd bod cyflwyno'r canllawiau statudol yn unig yn opsiwn sylfaenol realistig ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Gallai canllawiau statudol ar eu pen eu hunain greu anghysondebau ledled Cymru, gan arwain at anghydraddoldebau iechyd posibl ymhlith dysgwyr. Dyma'r ddau opsiwn a bennir:

**Opsiwn 1**: Cadw'r fersiwn bresennol o Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013 h.y. busnes fel arfer.

**Opsiwn 2**: Diweddaru'r Rheoliadau cyfredol a'r Canllawiau Statudol mewn ysgolion cynradd er mwyn ystyried argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU.

6.2 Ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid wrth adolygu a datblygu'r cynigion gogyfer Rheoliadau 2025 ar gyfer ysgolion cynradd (Opsiwn 2). Hefyd, mae 'cam profi a myfyrio' cyn ymgynghori wedi ei gwneud yn bosibl i dreialu dulliau a mireinio cynigion cyn cynnal profion ehangach trwy gyfrwng yr ymgynghoriad cyhoeddus.

6.3 Mewn perthynas â'r diwygiadau sy'n ymwneud ag ysgolion uwchradd yn Rheoliadau 2025, mae'r rhain yn ymdrin â diwygiadau sillafu a thechnegol ac nid ydynt yn newid y polisi sylfaenol, a fydd yn parhau i fod ar waith hyd nes y caiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol. O'r herwydd, nid yw'r diwygiadau hyn wedi cael eu hystyried yn yr opsiynau a nodir isod, sy'n berthnasol i ysgolion cynradd yn unig.

## **Opsiwn 1** – Cadw'r fersiwn bresennol o Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013 h.y. busnes fel arfer.

### Disgrifiad

6.4 Caiff yr arlwy bwyd mewn ysgolion yng Nghymru ei ategu gan Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013"). Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r mathau o fwydydd a diodydd y mae'n rhaid eu darparu ac na chaniateir eu darparu yn ystod y diwrnod ysgol ac maent yn diffinio cynnwys ciniawau ysgol cyffredin

o ran maeth. Rhaid i'r holl fwyd a ddarperir gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol gadw at y Rheoliadau hyn (yn amodol ar eithriadau cyfyngedig a nodir yn Rheoliadau 2013). Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai'r Rheoliadau hyn yn newid.

**Manteision**

6.5 Mae Rheoliadau 2013 yn nodi'r gofynion sylfaenol o ran maeth y mae'n rhaid eu darparu. Maent yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu lunio bwydlenni a all fynd ymhellach, gan ymgorffori nifer o'r argymhellion deietegol diwygiedig a argymhellir gan Lywodraeth y DU yn eu darpariaeth heb orfod newid y Rheoliadau presennol.

6.6 Mae ein hymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu arferion sy'n mynd ymhellach na'r gofynion statudol cyfredol. O'r herwydd, gellir coleddu agwedd gadarnhaol tuag at gadw Rheoliadau 2013 trwy osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2. Gallai hyn leihau'r pwysau posibl ar dimau arlwyo lleol trwy beidio â chyflwyno gofynion cenedlaethol newydd a allai fod y tu hwnt i gapasiti gweithredol presennol rhai awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â diweddaru'r rheoliadau; rhestrir y risgiau hyn isod.

**Risgiau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

6.7 Ers cyflwyno Rheoliadau 2013, mae argymhellion deietegol Llywodraeth y DU wedi cael eu diwygio ar sail cyngor diweddaraf y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg (SACN) a gyflwynwyd i bedair Llywodraeth y DU. Heb gymryd camau i ystyried y cyngor hwn, mae'n bosibl y gallai Cymru golli cyfleoedd hollbwysig i gyfrannu ymhellach at wella canlyniadau iechyd trwy gyfrwng ein harlwy bwyd ysgol, yn ogystal â syrthio y tu ôl i wledydd eraill sydd eisoes wedi diweddaru eu gofynion bwyd i adlewyrchu canllawiau diweddaraf y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg (yr Alban).

6.8 Ymhellach, ceir risg ychwanegol i enw da Llywodraeth Cymru pe na bai Rheoliadau 2013 yn cael eu diweddaru. Roedd darparu Rheoliadau diwygiedig yn ymwneud â bwyd ysgol, a fyddai'n cyd-fynd â'r gofynion a'r canllawiau maeth diweddaraf, yn un o ymrwymiadau clir ein Strategaeth

Pwysau Iach: Cymru Iach fel rhan o'n dull i wireddu un o nodau 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)' – sef sicrhau 'Cymru Iachach'.

Iechyd

6.9 Mae cadw Rheoliadau 2013 yn cyflwyno risg yn y tymor hwy. Byddai cadw Rheoliadau 2013 yn arwain at golli cyfle i helpu i wrthdroi'r niferoedd cynyddol o blant gordew neu blant sydd dros eu pwysau – sef rhywbeth a allai, ochr yn ochr â ffactorau amgylcheddol a ffactorau eraill yn ymwneud â ffyrdd o fyw, arwain at gostau uwch i'r GIG yng Nghymru yn sgil cyflyrau sy'n gysylltiedig â deiet, fel diabetes a chlefyd y galon (gweler paragraff 6.25). Mae'r risgiau cydgysylltiedig hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw mynd ati'n rheolaidd i ystyried gofynion bwyd ysgol o'r newydd, fel rhan o strategaeth ehangach i amddiffyn iechyd pob dysgwr a diogelu cynaliadwyedd y GIG ledled pob Bwrdd Iechyd.

Dysgwyr

6.10 Fel y nodir ym mharagraff 6.6, mae rhai arlwywyr ysgol eisoes yn gweithredu arferion sy'n mynd ymhellach na'r gofynion statudol cyfredol. Fodd bynnag, byddai cadw Rheoliadau 2013 yn golygu y ceid anghysondebau yng nghynnwys maeth y prydau a gynigir ledled awdurdodau lleol – sef rhywbeth a allai arwain at anghydraddoldebau i rai dysgwyr.

6.11 Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg[4] bod rhai plant yn parhau i deimlo'n llwglyd ar ôl iddynt gael eu cinio ysgol. Mae'r pryder hwn i'w weld yn arbennig ymhlith disgyblion hŷn. Pe bai Rheoliadau 2013 yn cael eu cadw, byddai Llywodraeth Cymru yn colli cyfle i gyflwyno gofynion diwygiedig, trwy gyfrwng Rheoliadau 2025, a allai helpu i sicrhau y byddai prydau ysgol yn gytbwys o ran maeth ac y byddent yn digoni'r disgyblion fel nad ydynt yn parhau i fod eisiau bwyd ar ôl bwyta.

6.12 Ymhellach, pe na bai Rheoliadau 2013 yn cael eu diweddaru, mae yna risg y byddai tlodi plant, newyn plant, ac anghydraddoldebau ehangach o ran iechyd ac addysg, yn parhau. Mae maeth gwael yn effeithio'n anghymesur ar blant o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol[5], ac mae hyn yn rhywbeth a gysylltir ag iechyd gwaeth, cyrhaeddiad academaidd is a heriau ymddygiadol. Gwyddom y gall prydau

[4] Dim ond un rhan o bump o blant a atebodd yr arolwg sy'n teimlo'n llawn ar ôl cael cinio ysgol – Comisiynydd Plant Cymru
[5] Child health inequalities driven by child poverty in the UK - position statement | RCPCH

ysgol gyfateb i hyd at draean o gymeriant bwyd plant yn ystod diwrnodau'r wythnos, felly maent yn ysgogiad hollbwysig ar gyfer ymyrraeth. Heb gryfhau'r rheoliadau, mae'n bosibl na fydd y safonau cyfredol yn adlewyrchu'r canllawiau gwyddonol diweddaraf, ac mae'n bosibl y collir cyfleoedd i ymwreiddio arferion bwyta'n iach yn gynnar mewn bywyd, yn ogystal â cholli cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

**Costau**

Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd

6.13 Ni fyddai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol na chyrff llywodraethu ysgolion yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol , pe bai Rheoliadau 2013 yn cael eu cynnal. Ond er bod yr opsiwn hwn yn osgoi goblygiadau cyllidebol uniongyrchol, gallai esgor ar risgiau strategol a risgiau o ran enw da i Lywodraeth Cymru yn y tymor hwy (gweler paragraffau 6.7 a 6.8), a gallai gyfyngu ar gyfleoedd i wella safonau maeth cenedlaethol mewn ysgolion. Hefyd, gallai gynnwys risgiau ariannol yn y tymor hwy yn sgil colli cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau iechyd; gallai'r GIG a gwasanaethau awdurdodau lleol deimlo effaith y gost yn y dyfodol (paragraff 6.25).

Dysgwyr

6.14 Er na ellir mynd ati'n fanwl gywir i gyfrifo'r effeithiau cymdeithasol ehangach a nodir ym mharagraff 6.13, ac o'r herwydd nad oes modd eu mesur, trwy gynnal y gofynion bwyd cyfredol (sydd ar ôl yr oes) gellid cael Effeithiau negyddol ar ein hymdrechion i fynd i'r afael â newyn plant a lleihau anghydraddoldebau. Yn eu tro, gallai'r pethau hyn effeithio ar iechyd dysgwyr yn y dyfodol, yn ogystal ag effeithio ar eu potensial i ennill cyflog.

**Opsiwn 2**: Diweddaru'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a'r Canllawiau Statudol mewn ysgolion cynradd er mwyn ystyried argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU drwy wneud Rheoliadau 2025.

**Disgrifiad**

6.15 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai diweddaru Rheoliadau 2013, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well ag argymhellion deietegol cyfredol Llywodraeth y DU, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cysondeb ym mwriad y polisi – sef helpu plant ysgolion cynradd i gael y bwydydd a'r diodydd sydd eu hangen arnynt i gael deiet iach a chyrraedd eu potensial. Y nod yw gwella safonau maeth prydau ysgol trwy wella'r gofynion bwyd sylfaenol a weinir i ddisgyblion. Mae'r newidiadau hollbwysig yn cynnwys:

- Cynnig ychwaneg o ffrwythau a llysiau er mwyn helpu plant Cymru i fwyta 'pump y dydd'.
- Darparu rhagor o rawn cyflawn gan fod tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant Cymru yn cael digon o ffeibr.
- Cyfyngu ar fwydydd crwst, pwdinau a nwyddau pôb melys, ynghyd â bwydydd wedi'u ffrio, ar sail y cyngor deietegol diweddaraf.
- Dwy safon wahanol ar gyfer babanod (meithrin – blwyddyn 2) a phlant iau (blwyddyn 3 i flwyddyn 6).
- Cynnig llai o gig wedi'i brosesu a chyfyngu ar ddewisiadau amgen sydd wedi'u prosesu (sef dewisiadau amgen yn lle pysgod a chig), a all gynnwys llawer o halen a braster dirlawn.
- Parhau i gynnig cig coch yn gymedrol er mwyn sicrhau y bydd modd i'r plant fwynhau ei fanteision maethol heb fwyta gormod ohono.
- Cyfyngu ar ddiodydd llawn siwgr, a gaiff eu cysylltu â gordewdra a phydredd dannedd.

**Manteision**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

6.16 Yn ôl tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â bwydlenni cinio ysgolion cynradd ledled 22 awdurdod lleol Cymru, mewn 75% o'r cylchoedd bwydlenni wythnosol a archwiliwyd roedd yr ysgolion eisoes yn cynnig o leiaf chwech o wahanol lysiau, gan fodloni'r gofyniad arfaethedig o ran amrywiaeth, yn ychwanegol at ddarparu dau ddogn o lysiau bob dydd, gan gynnwys salad fel ail opsiwn yn aml. Hefyd, roedd nifer o ysgolion yn defnyddio pasta, reis a bara grawn cyflawn neu 50/50, ac roeddynt yn cynnig cynhyrchion pysgod bob wythnos. Ymhellach, roedd y

mwyafrif o awdurdodau lleol eisoes yn cydymffurfio â'r safon arfaethedig ar gyfer diodydd; roedd dŵr ar gael ym mhob ysgol a phur anaml y byddai sudd ffrwythau'n cael ei gynnig.

6.17 Felly, byddai Rheoliadau 2025 yn ffurfioli ac yn safoni arferion da, gan sicrhau cysondeb ar draws pob ardal awdurdod lleol a chan sicrhau y byddai modd cydweddu ag argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU ar draws darpariaethau prydau ysgolion cynradd i'r graddau y bo'n ymarferol, gan ddileu'r risgiau a nodir yn **Opsiwn 1**. Hefyd, byddai hyn yn ategu ein huchelgais fel y'i nodir yn Pwysau Iach: Cymru Iach – sef darparu dull 'system gyfan' hirdymor i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Yn y Canllawiau Statudol ategol, a gaiff eu cyhoeddi ar ôl gosod Rheoliadau 2025, ceir argymhellion ar gyfer y rhai sydd eisoes yn cyrraedd y safonau sylfaenol, er mwyn iddynt allu mynd ymhellach na'r safonau o dan sylw pe baent yn dymuno gwneud hynny.

6.18 Hefyd, mae diweddaru'r Rheoliadau yn cyd-fynd â'n dyheadau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol trwy gynnig cyfle i blant oedran ysgol gynradd rannu a mwynhau prydau iach a maethlon gyda'i gilydd. Mae hyn yn ceisio cynyddu manteision ein buddsoddiad mewn iechyd a llesiant plant, dysgu plant, a'u sgiliau cymdeithasol.

<u>Dysgwyr</u>

6.19 Bwriedir i'n darpariaeth cinio ysgol gyrraedd oddeutu 30% o ofynion maeth dyddiol cyfartalog plant 4-10 oed. Pan fo'r dysgwyr hefyd yn cael brecwast yn yr ysgol, gall hyn gyfrannu oddeutu 20% yn ychwaneg at eu cymeriant dyddiol. Nod sicrhau cydbwysedd prydau ysgol yw sicrhau bod anghenion iechyd plant yn cael eu diwallu yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft trwy gynyddu ffeibr a lleihau siwgr. Bwriedir i'r gwelliannau hyn feithrin arferion bwyta iachach, gan gynorthwyo'r dysgwyr i wneud dewisiadau mwy maethlon y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol, ynghyd â chyfrannu at ymdrechion i leihau gordewdra. Fodd bynnag, mae effeithiau Rheoliadau 2025 ar lefelau gordewdra yn parhau i fod yn ansicr, ac ni ellir eu mesur, a hynny gan fod y dysgwyr yn cael gweddill eu maeth y tu allan i leoliad yr ysgol, a hefyd gan fod niferoedd y dysgwyr sy'n gwneud defnydd o'r arlwy yn amrywio. Ond bwriedir i'r rheoliadau a'r canllawiau diwygiedig gael dylanwad cadarnhaol yn ystod y diwrnod ysgol, a thu hwnt.

6.20 Pan fo gofynion maeth yn sail i brydau a gynigir, mae tystiolaeth yn dangos y gall hyn fod o fudd i ddeilliannau addysgol.[6] Hefyd, mae tystiolaeth yn dangos bod gofynion maeth mewn bwyd ysgol yn fuddiol i ganlyniadau iechyd. Mae sicrhau bod y bwyd a ddarperir mewn ysgolion yn cyfrannu at wella canlyniadau i ddysgwyr yn cynrychioli gwell gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

6.21 Eisoes, mae nifer o awdurdodau lleol yn mabwysiadu arferion sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol cyfredol, gan arwain o bosibl at ganlyniadau gwell i ddysgwyr. Fodd bynnag, dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y manteision yn anodd eu mesur yng nghyd-destun gwahanol ddulliau lleol, ac y byddai'r manteision yn cael eu gwireddu'n fwy cyson pe baent yn cael eu hategu gan bolisi a chanllawiau cryfach.

6.22 Dengys tystiolaeth fod plant sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd economaidd-gymdeithasol uwch yn wynebu cyfraddau uwch o broblemau o ran eu pwysau. Felly, byddai diweddaru'r Rheoliadau a chryfhau'r canllawiau statudol yn ddull effeithiol o helpu mynediad teg at fwyd iachach, a hefyd byddai'n cynorthwyo i ddatblygu ymddygiadau bwyta'n iach a dewisiadau bwyd a allai gyfrannu at wella canlyniadau ac ansawdd bywyd i blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru.

6.23 Ymhellach, bydd y canllawiau statudol diwygiedig, a gyhoeddir yn dilyn gosod y Rheoliadau, yn atgyfnerthu disgwyliadau o ran y modd y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion fynd ati mewn ffordd ystyrlon i ymgysylltu â'r dysgwyr wrth lunio a darparu'r arlwy cinio ysgol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr arlwy'n adlewyrchu'n well beth yw anghenion amrywiol dysgwyr ac is-grwpiau (yn cynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig), yn arbennig o ran gofynion deietegol arbennig a dewisiadau diwylliannol.

6.24 Yn olaf, ceir adroddiadau bod rhai plant yn dweud eu bod yn dal i deimlo'n llwglyd ar ôl iddynt gael eu cinio ysgol (paragraff 6.11). Bydd y Rheoliadau diweddaraf yn sicrhau na fydd terfyn uchaf yn cael ei osod ar y bwydydd y dymunwn eu hannog, fel ffrwythau, llysiau, a bara sy'n cynnwys o leiaf 50% o rawn cyflawn, gan sicrhau ar yr un pryd y cyfyngir ar fwydydd sy'n cynnwys siwgr a braster dirlawn, a all gynyddu risgiau o ran problemau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet. Mae potensial i'r newidiadau hyn helpu i

[6] Anderson, M.L., Gallagher, J. a Ritchie, E.R. (2018) School meal quality and academic performance. Journal of Public Economics, 168, tt.81-93.

fynd i'r afael â'r broblem bod plant yn llwglyd mewn ysgolion a chynorthwyo plant i ganolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth.[7]

Y GIG

6.25 Mae'n bosibl y bydd Rheoliadau 2025 yn gwella ein gallu i fynd i'r afael â gordewdra plentyndod yng Nghymru. Fel y nodir ym mharagraff 6.9, gallai peidio â gweithredu arwain at ymestyn cyflyrau sy'n gysylltiedig â deiet, fel diabetes math 2 a chlefyd y galon – sef dau glefyd sydd â goblygiadau hirdymor i'r GIG yng Nghymru. Er nad darpariaeth bwyd ysgol yw'r unig benderfynydd mewn perthynas ag iechyd plant, mae'n ysgogiad pwerus ar gyfer ffurfio arferion bwyta gydol oes. Trwy foderneiddio'r Rheoliadau a chryfhau'r canllawiau statudol, gallwn fanteisio ar gyfle hollbwysig i ymwreiddio ymddygiadau iachach yn gynnar[8], ynghyd â lleihau straen ar y system iechyd yn y dyfodol a chyfrannu at ostwng gwariant blynyddol y GIG ledled y DU ar glefydau sy'n gysylltiedig â gordewdra – sef gwariant yr amcangyfrifir ei fod yn £6.5 biliwn[9] ar hyn o bryd. Mae'r un adroddiad yn amcangyfrif bod y gost gymdeithasol sydd ynghlwm wrth ordewdra, yng Nghymru yn unig, yn £3 biliwn bob blwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau ar gyfer y GIG, costau economaidd ehangach yn sgil cynhyrchiant is a chostau i'r unigolyn yn sgil ansawdd bywyd gwaeth (a fesurir trwy ddefnyddio blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd – QALYS).

Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu

6.26 Bydd Rheoliadau 2025 yn parhau i ategu hyblygrwydd lleol wrth lunio bwydlenni, gan sicrhau y bydd modd i arlwywyr bwyd ysgol addasu bwydlenni i adlewyrchu dewisiadau lleol/rhanbarthol, cynnyrch lleol a realiti gweithredol. Wrth fodloni'r gofynion newydd, ni ragwelir y bydd angen i arlwywyr bwyd ysgol wyro'n sylweddol oddi wrth brosesau 'busnes fel arfer' presennol, oherwydd mae rhai ohonynt eisoes yn gweithredu safonau sy'n cyd-fynd â'r gofynion diwygiedig (paragraff 6.16).

6.27 Ymhellach, mae Rheoliadau 2025 a'r Canllawiau Statudol dilynol yn creu cyfle i hyrwyddo mwy ar fwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion, gan gysylltu â'r cwricwlwm newydd, cryfhau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, a

---

[7] UNESCO 2023. Ready to learn and thrive. School health and nutrition around the world. Ar gael ar Ready to learn and thrive: School health and nutrition around the world - 2023 | World Food Programme

[8] Lundborg P, Rooth DO, Alex-Petersen J. Long-Term Effects of Childhood Nutrition: Evidence from a School Lunch Reform. Rev Econ Stud [Rhyngrwyd]. 2022. 1;89(2):876–908. Ar gael ar: https://doi.org/10.1093/restud/rdab028

[9] Estimating the full costs of obesity - Frontier Economics

chyfrannu at ymddygiadau gydol oes cadarnhaol mewn perthynas â bwyta'n iach. Ar yr un pryd, gallai maeth gwell helpu i wella ymddygiad a chyrhaeddiad mewn ysgolion.[10]

Manteision Ehangach

6.28 Mae bwyd yn eithriadol o bwysig yng Nghymru, gan esgor ar amrywiaeth eang o fanteision sy'n ymestyn y tu hwnt i faeth. Mae'n cryfhau'r economi sylfaenol trwy gefnogi swyddi lleol ac ysgogi twf, mae'n sicrhau cyflenwadau bwyd mwy diogel, ac mae'n hanfodol i iechyd a llesiant cymunedau.

6.29 Mae cynyddu faint o ffrwythau a llysiau a gaiff eu bwyta mewn ysgolion cynradd, fel y nodir yn Rheoliadau 2025, yn cynnig cyfle i gynyddu cynhyrchiant lleol a gwella effaith mentrau presennol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y prosiect 'Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion', sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu a chyflenwi llysiau lleol, a dyfir yn gynaliadwy, i ysgolion. Hefyd, byddai hyn yn cynorthwyo i ddatblygu cynhyrchion newydd a fyddai'n canolbwyntio ar gynnyrch Cymreig gan Castell Howell a Larder Cymru, sy'n cydweithredu ag awdurdodau lleol i adolygu bwydlenni a chynyddu faint o gynnyrch lleol a ddefnyddir. Ymhellach, rhaid cydbwyso'r manteision hyn â risg gysylltiedig Rheoliadau 2025 ar gyflenwyr bwyd ysgol – gweler paragraff 6.36.

6.30 Caiff y dull hwn ei ategu gan arfer barhaus awdurdodau lleol i fabwysiadu canllawiau Llywodraeth Cymru, sef: 'Pŵer Prynu'r Plât Cyhoeddus: Canllaw Cyfreithiol i Fewnosod Cynaliadwyedd wrth Gaffael Bwyd i Greu Cymru Iachach, Fwy Cyfoethog' ar gyfer pob contract bwyd/cytundeb fframwaith sy'n darparu bwyd ysgol yng nghyd-destun y rheoliadau diwygiedig.

6.31 Er na ellir mesur yn llawn hyd a lled yr effeithiau hyn ar y cam hwn, mae'n hanfodol parhau i ymgysylltu â'r sector amaethyddol a chyflenwyr bwyd ysgol yng Nghymru, gan gynnig manteision i'r naill a'r llall a chan helpu i ddatgloi cyfleoedd eraill i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol.

## Risgiau

Awdurdodau lleol

[10] Adroddiad-Effeithiau-Prydau-Ysgol-am-Ddim-i-Bawb.pdf

6.32 Er mwyn helpu i ddeall y risg bosibl i awdurdodau lleol o ran yr effaith ar y gallu i gyflawni, fforddiadwyedd a'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgymryd ag ystod o weithgareddau gyda phartneriaid cyflenwi. Mae hyn wedi cynnwys, drwy ddull grŵp Gorchwyl a Gorffen (a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth awdurdodau lleol), cyd-ddatblygu'r cynigion drafft yr ymgynghorwyd arnynt. Yn ogystal, neilltuwyd amser cyn yr ymgynghoriad (Medi 2024 - Mai 2025) ar gyfer profion cyn ymgynghori dewisol gan awdurdodau lleol, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu gweithdai i gefnogi partneriaid i ddeall newidiadau allweddol a chasglu myfyrdodau.

6.33 Drwy'r dull cydweithredol hwn, a'u hymatebion i'r ymgynghoriad, soniodd awdurdodau lleol am nifer o risgiau posibl mewn perthynas â chyflwyno Rheoliadau 2025. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys pwysau ariannol yn sgil costau uwch posibl bwydydd grawn cyflawn a bwydydd ffres, gwastraff bwyd posibl tra bydd y dysgwyr yn addasu i fwydlenni newydd, a heriau gweithredol fel cyfyngiadau yn y gadwyn gyflenwi, uwchraddiadau i'r seilwaith a'r angen i hyfforddi'r staff.

6.34 I gydnabod y risgiau, gwnaed sawl newid i Reoliadau 2025, gan gynnwys:

- diwygio'r diffiniad o gig wedi'i brosesu (y cyfeirir ato bellach yn y Rheoliadau fel 'cynnyrch cig penodedig') i ddarparu mwy o eglurder i bartneriaid cyflenwi.
- dileu'r ddarpariaeth i gyfyngu ar brydau sy'n cynnwys caws er mwyn darparu mwy o eglurder i bartneriaid cyflenwi.
- cyfyngu'r diffiniad o ddewisiadau di-gig a di-bysgod i sicrhau bod ystod ehangach o gynhwysion ar gael i awdurdodau lleol ac ysgolion wrth gynllunio bwydlenni.

6.35 Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod nifer fawr (95) o'r ymatebwyr o'r farn y byddai cynnwys mwy o gynnyrch ffres a chig o ansawdd gwell o dan y cynigion yn arwain at gynnydd yng nghostau caffael bwyd. Fodd bynnag, roedd 113 o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai unrhyw effaith ar gost, neu nid oeddent yn siŵr, gan dynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd meintoli'r heriau a'r costau cysylltiedig. Fel y nodir ym mharagraff 6.5, mae arlwywyr ysgol yn cadw eu gallu i ddylunio bwydlenni yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion. Ymhellach, mae gwahaniaethau o safbwynt cyfrifyddu costau, strwythurau arlwyo a chaffael ar draws awdurdodau lleol yn arwain at gryn amrywioldeb, ac mae ffactorau fel newidiadau mewn chwyddiant a gweithrediadau cadwyni cyflenwi yn cymhlethu ymhellach amcangyfrifon dibynadwy. I gloi, nododd ymatebwyr

fod angen gwaith modelu cost manylach i ddeall yr effeithiau hyn yn llawn dros amser.  Yn ystod y broses cyn ymgynghori a'r ymgynghoriad, mae'n debyg bod sawl awdurdod lleol wedi dechrau gweithredu Rheoliadau 2025 lle bo hynny'n bosibl (gweler paragraff 6.32). Felly, mae sicrwydd bod modd cyflawni Rheoliadau 2025, gyda photensial i ddysgu gael ei rannu a'i fabwysiadu'n ehangach.

6.36 Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i ddarparu bwyd maethlon mewn ysgolion cynradd, gan gynnwys drwy'r cynnydd diweddaraf i'r gyfradd fesul uned a delir am bob pryd o fwyd o dan yr ymrwymiad cyffredinol i brydau ysgol gynradd am ddim. Cynyddodd y gyfradd hon o £3.20 i £3.40 am bob pryd, o fis Medi 2025, a dyma'r gyfradd uchaf yn y DU. Dyma'r ail dro i Lywodraeth Cymru godi'r gyfradd fesul uned a delir am bob pryd ers i'r polisi ddechrau. Bwriedir i'r cynnydd hwn adlewyrchu pwysau chwyddiannol y gwyddys amdano ar fwyd, staffio a chostau gweithredol, a'i nod yw ategu cynaliadwyedd ac ansawdd parhaus y ddarpariaeth prydau ysgol.

6.37 Yn olaf, er mwyn lliniaru'r risgiau uchod ymhellach, bydd Rheoliadau arfaethedig 2025 yn cael eu dilyn gan ganllawiau statudol diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion a bydd mecanweithiau presennol yn cefnogi Llywodraeth Cymru i barhau i fonitro'r nifer sy'n cael bwyd ysgol a'r ddarpariaeth prydau ysgol. Trwy gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arweinwyr lleol Rhwydwaith Cymru o Ysgolion sy'n Hybu Iechyd a Lles, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu pa gymorth sy'n angenrheidiol, yr hyn sydd wedi'i ddatblygu eisoes a'r hyn y gellir ei rannu a ble y gellir rhoi arferion da presennol ar waith yn ehangach. Bydd hyn oll yn ymgorffori polisïau presennol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion, megis cylchoedd caffael a chynnal a chadw cyfalaf rheolaidd  (gweler paragraff 6.55).

<u>Dysgwyr</u>

6.38 Roedd y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig yn ystyriaeth i Lywodraeth Cymru wrth ddylunio Rheoliadau 2025 a, thrwy'r cyfnod cyn ymgynghori a'r ymgynghoriad (gweler paragraff 6.32), cofnodwyd mewnwelediad y dysgwyr. Mae Rheoliadau 2025 wedi'u diweddaru yn cyfyngu ar argaeledd yr hyn y gwyddom sy'n ddewisiadau bwyd poblogaidd, fel cig wedi'i brosesu a phwdinau melys. Gallai'r newidiadau hyn gynyddu'r nifer o blant sy'n llwglyd pe baent yn dewis peidio â bwyta'r pethau a gynigir iddynt yn y dyfodol a gallai arwain at wastraff bwyd ychwanegol, o leiaf ar y dechrau. Gallai anghydraddoldebau iechyd ehangu pe bai dysgwyr, neu eu teuluoedd, yn dewis darparu pecynnau cinio yn lle prydau ysgol cytbwys eu

maeth, yn enwedig pe bai gwerth maethol is i’r pecynnau cinio hynny. Ymhellach, byddai darparu pecynnau cinio yn esgor ar faich ariannol i deuluoedd. Gyda’i gilydd, gallai’r elfennau hyn effeithio’n anghymesur ar blant sy’n byw mewn anfantais economaidd-gymdeithasol ac sydd hefyd yn fwy tebygol o ddod o leiafrifoedd ethnig a theuluoedd â phobl anabl, oherwydd mae’n bosibl y byddai’r plant hynny’n fwy dibynnol ar y prydau a gânt yn yr ysgol.

6.39 Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lliniaru drwy arferion presennol, lle mae arlwywyr yn dylunio bwydlenni gydag anghenion a dewisiadau dysgwyr cynradd a chymunedau lleol mewn golwg. Ar lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r Canllawiau Statudol ar hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan egluro rolau a chyfrifoldebau ymhellach, a chynnig cyngor ymarferol i'r rhai sydd â dyletswydd i weithredu. Bydd hyn yn cynnwys pwysleisio pa mor bwysig yw ymgysylltu â dysgwyr, rhieni a gofalwyr er mwyn iddynt allu ymgyfarwyddo ag arlwy bwyd yr ysgol a hefyd er mwyn eu hannog i wneud yn fawr o’r arlwy hwnnw. Ar wahân, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru i nodi'r dulliau cyfathrebu gorau posibl i gyrraedd cynulleidfaoedd targed, gan gynnwys dysgwyr, er mwyn hyrwyddo manteision Rheoliadau 2025. Bydd y gwaith hwn mewn cydweithrediad ag arweinwyr Rhwydwaith Cymru o Ysgolion sy'n Hybu Iechyd, i hwyluso lledaenu gwybodaeth ac i sicrhau cysondeb y negeseuon. Yn y tymor hwy, mae yna hefyd y potensial i ystyried a deall gwyddoniaeth ymddygiadol dewisiadau bwyd ysgolion.

6.40 Yn olaf, drwy'r grant Prydau Ysgol Gynradd Cyffredinol am Ddim, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig bwyd ysgol i ystyried a oes angen unrhyw newidiadau pellach, os o gwbl.

<u>Cyflenwyr</u>

6.41 Tynnodd ein hymgynghoriad sylw at bryderon gan rai y gallai arlwywyr bwyd ysgol orfod cyrchu cynnyrch rhatach er mwyn rheoli cyllidebau, gan leihau’r galw am gynhyrchion Cymreig o bosibl, yn cynnwys cig, cynnyrch llaeth a chynnyrch ffres. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar gymunedau ffermio lleol ac ar yr economi wledig. Hefyd, nododd yr ymgynghoriad y gallai argaeledd a chost cynhyrchion grawn cyflawn 50%, fel bara, pasta a nwdls, esgor ar heriau ychwanegol i gyflenwyr lleol.

6.42 Fodd bynnag, roedd yr ymatebion gan gyflenwyr yn gymharol gyfyngedig, felly mae'n anodd meintioli ein dealltwriaeth o effaith lawn y Rheoliadau wedi'u diweddaru i'r grŵp hwn. Fodd bynnag, o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, tynnodd rhai sylw at risgiau posibl i fusnesau amaethyddol a chyflenwi bwyd, gan nodi'n enwedig y gallai

unrhyw ostyngiad yn amlder cig coch a chig wedi'i brosesu effeithio ar fusnesau Cymru (lle mae'r eitemau hyn yn cael eu cyflenwi i ysgolion cynradd a'u gweini ynddynt ar hyn o bryd). Yn ogystal, nododd rhai cyflenwyr y gallai cyfyngu ar sudd ffrwythau mewn ysgolion effeithio ar rai busnesau yng Nghymru a hefyd ar gymunedau gwledig a gyflogir yn lleol. Nodwyd, fodd bynnag, y byddai'r effaith hon yn cael ei theimlo pe bai sudd ffrwythau yn cael ei gyfyngu mewn ysgolion uwchradd (nad yw o fewn cwmpas y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2025). Yn ogystal, awgrymwyd y gallai gweithgynhyrchu pwrpasol bwydydd sydd angen eu hail-lunio i fodloni'r gofynion newydd gynyddu costau i gyflenwyr a chael eu pasio ymlaen i arlwywyr. Hefyd, nododd y cyflenwyr y byddai angen buddsoddi ymhellach i fyny'r gadwyn, yn ogystal â chydweithredu gyda chyflenwyr, er mwyn cyrchu cyflenwadau newydd a bodloni gofynion newydd – a bod hyn yn rhywbeth a allai esgor ar heriau i gadwyni cyflenwi llai neu wledig. Fel y nodir ym mharagraff 6.26, mae gan arlwywyr bwyd ysgol hyblygrwydd i ddatblygu bwydlenni sy'n bodloni eu realiti gweithredol a dewisiadau rhanbarthol, ac o'r herwydd ni wyddys beth fydd yr union effaith ar gyflenwyr. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu lliniaru'r risgiau hyn cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol drwy gyswllt yn y gadwyn gyflenwi drwy Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru.

**Costau**

<u>Awdurdodau lleol</u>

6.43 Er y bydd gweithredu Rheoliadau 2025 yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer y ddarpariaeth bwyd ysgol, ceir ffyrdd credadwy o gydymffurfio â'r gofynion mewn modd niwtral o ran cost.

6.44 Mae'r cyllid a ddarperir i wasanaethau arlwyo awdurdodau lleol ar gyfer Prydau Ysgol Gynradd Cyffredinol am Ddim (UPFSM) a chymhwystra i gael Prydau Ysgol Am Ddim (eFSM) yn cefnogi elfennau craidd darparu prydau bwyd. Mae hyn yn cynnwys staffio, caffael bwyd, ailddylunio bwydlenni, hyfforddiant staff, a diweddariadau i brosesau caffael cynnyrch.

6.45 Mae'r hyblygrwydd sy'n perthyn i'r rheoliadau yn parhau i alluogi awdurdodau lleol i lunio bwydlenni sy'n gwneud amnewidiadau costeffeithiol lle bo angen. Bydd awdurdodau lleol yn cadw'r ymreolaeth i benderfynu ar y ffordd orau o fodloni'r gofynion diwygiedig, a bydd modd iddynt fynd ati i gynllunio bwydlenni mewn ffordd effeithlon er mwyn eu teilwra ar gyfer yr ardal leol ac mewn ffordd sy'n ategu amrywiaeth eang o ddewisiadau, gan barhau i fodloni gofynion eu cymunedau.

6.46 Ar sail bwydlen enghreifftiol ar gyfer ysgol gynradd, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif y bydd y gost ar gyfer pob cinio ysgol yn cynyddu £0.15 ar gyfer yr eitemau bwyd. Priodolir y cynnydd mwyaf i bwdinau (+£0.13), yn bennaf yn sgil cynnwys ffrwythau neu lysiau gyda'r holl bwdinau a hefyd yn sgil cynnwys iogwrt yn lle nwyddau pôb melys.

6.47 Soniwyd am gynnydd posibl yn y costau yn ymatebion rhai o'r awdurdodau lleol hefyd, lle mynegwyd pryderon ynglŷn â'r gost ar gyfer darparu ffrwythau a/neu lysiau gyda phob pwdin. Roedd eraill yn bryderus ynglŷn â pha mor ymarferol fyddai 'gweini' ffrwythau neu lysiau ar y plât gyda phob pwdin, yn hytrach na'u 'cynnig' ar y cownter.

6.48 Gan ddefnyddio amcangyfrif Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn amcanu y gallai cyfanswm y gost flynyddol ychwanegol fod oddeutu £6 miliwn, gan ragdybio y bydd oddeutu 86% o'r dysgwyr yn gwneud defnydd o'r arlwy yn flynyddol[11]. Ond mae'n bwysig nodi bod nifer hanesyddol y dysgwyr sy'n gwneud defnydd o Brydau Ysgol am Ddim[12] yn is, ac o'r herwydd mae hyn yn cynrychioli amcangyfrif o'r gost uchaf. Ymhellach, er bod pwdinau'n boblogaidd, ni chynhwysir unrhyw ofyniad gorfodol yn y Rheoliadau newydd i gynnig pwdinau; yr unig beth a wneir yw gosod terfyn uchaf ar ba mor aml y caniateir gweini pwdinau neu gynhyrchion pôb melys yn ystod yr wythnos.

6.49 Fodd bynnag, oherwydd ffactorau a nodwyd eisoes mewn perthynas â gwahanol arferion ar draws awdurdodau lleol, mae'n anodd defnyddio'r data hwn mewn ffordd ddibynadwy i ddwyn casgliadau. Mae'r gwaith modelu costau a gyflwynir yn ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i seilio ar fwydlen enghreifftiol a lywiwyd gan ddata caffael a ddeilliodd o sampl cyffredinol o awdurdodau lleol. Roedd rhai elfennau a dreialwyd ym mwydlen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn seiliedig ar reoliadau drafft a rannwyd fel rhan o gam profi cyn ymgynghori gydag awdurdodau lleol – a oedd yn cynnwys pwdinau â llaeth ynddynt a phrydau â chaws ynddynt. Ers hynny, mae'r gofynion hyn yn benodol wedi cael eu newid, gan esgor ar fwy o hyblygrwydd wrth gynllunio bwydlenni a chan alluogi pob awdurdod lleol i deilwra bwydlenni mewn modd a fydd yn rhagweld

[11]Darparwyd y gyfradd 86% trwy'r grant Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd fel amcangyfrif uchel ceidwadol er mwyn sicrhau y dyrennir digon o gyllid. Deilliodd o ddadansoddiad mewnol ac fe'i defnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau grantiau i awdurdodau lleol.

[12] Mae data CYBLD 2019 yn dangos bod cyfran y dysgwyr a oedd yn gwneud defnydd o Brydau Ysgol am Ddim, ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn cyfateb i 75%. Ni ddefnyddiwyd data diweddarach oherwydd problemau gydag ansawdd y data yn dilyn gweithredu'r polisi amddiffyn wrth bontio.

dewisiadau'r cwsmeriaid a'r nifer a fydd yn gwneud defnydd o'r arlwy. Ymhellach, mae ymateb CLILC i'r ymgynghoriad yn dangos bod y costau hyn wedi'u seilio ar y syniad y gwneir defnydd llwyr (100%) o holl elfennau'r cinio ysgol. Ond yn ymarferol, ni fydd rhai dysgwyr yn gwneud defnydd o holl elfennau'r arlwy, a bydd awdurdodau lleol yn dadansoddi'r patrymau hyn ac yn defnyddio gwybodaeth hanesyddol am ddefnydd wrth gynllunio faint o fwyd i'w baratoi. Mae'r dull hwn yn helpu i reoli gwastraff ac yn sicrhau bod costau'n parhau i fod yn cyd-fynd â chyllidebau bwyd wedi'u targedu.

6.50 Bydd arlwywyr yn parhau i fod â'r hyblygrwydd i lunio bwydlenni sy'n ymateb i gadwyni cyflenwi lleol, dewisiadau dysgwyr a realiti gweithredol. Bydd hyblygrwydd o'r fath yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio eitemau amgen mwy fforddiadwy, sydd ar gael yn lleol, yn lle eitemau drytach, a hefyd bydd modd iddynt optimeiddio ryseitiau er mwyn sicrhau eu bod yn gost-effeithiol, ynghyd ag addasu bwydlenni'n dymhorol er mwyn gallu gwneud yn fawr o gynnyrch rhatach. O ganlyniad, gallai'r costau gwirioneddol amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar y cyd-destun lleol, yr elfennau y gwneir defnydd ohonynt yn yr arlwy bwyd ysgol, a'r dewisiadau gweithredu.

6.51 Hefyd, tynnodd yr ymgynghoriad sylw at amrywiaeth o arferion a roddir ar waith ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol i arbed costau wrth ddarparu prydau ysgol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys manteisio ar drefniadau swmpbrynu, cynllunio bwydlenni mewn modd hyblyg sy'n ymgorffori cynnyrch tymhorol, a gweithio gyda chadwyni cyflenwi lleol i optimeiddio caffael. Ond oherwydd amrywiannau ar draws lleoliadau – yn cynnwys gwahaniaethau o ran mynediad at gyflenwyr, seilwaith ceginau a dewisiadau dysgwyr – ar hyn o bryd, ni ellir mesur hyd a lled yr arbedion effeithlonrwydd hyn ar lefel genedlaethol. Ymhellach, mae cyflwyno dognau o faint gwahanol i fabanod a phlant iau yn strategaeth ymarferol ac effeithiol ar gyfer cydweddu'r ddarpariaeth bwyd gydag anghenion maeth penodol, gan arwain at lai o wastraff bwyd a chostau bwyd is.

6.52 Er mai tasg anodd yw mesur ffigurau penodol ar gyfer hyfforddiant ac uwchraddio ceginau, soniodd rhai o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad am y posibilrwydd y byddai angen buddsoddiad cyfalaf a chyllidebau hyfforddi uwch er mwyn gallu cyflawni'r rheoliadau diwygiedig.

6.53 Er nad yw Rheoliadau 2025 yn nodi bod yn rhaid cael gwared â pheiriannau ffrio dwfn, cynhwysir hyn yn y Canllawiau Statudol dilynol fel rhywbeth y dylid anelu ato. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau gweithredol ac ariannol sy'n gysylltiedig â phontio tuag at ddulliau coginio

iachach mewn ceginau ysgol. Er bod nifer o awdurdodau lleol wedi ymrwymo i gyflawni'r newid hwn, mae'n bosibl y bydd angen buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer gosod poptai cyfun yn lle peiriannau ffrio dwfn, a hefyd ar gyfer uwchraddio ceginau. Ar hyn o bryd, ni wyddys beth fydd maint y buddsoddiad hwnnw; ychwaith, ni wyddys a fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol parhaus yn gysylltiedig ag ef. Yn ôl ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae 42% o ysgolion cynradd yn dal i ddefnyddio peiriannau ffrio dwfn bob wythnos; ac er bod pum awdurdod lleol eisoes wedi cwblhau'r broses o gael gwared â pheiriannau o'r fath, mae'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol sy'n weddill yn cael gwared â nhw'n raddol, fel arfer ar ôl i'r peiriannau gyrraedd diwedd eu hoes.

6.54 Nododd Llywodraeth Cymru fod rhai awdurdodau lleol wedi cael gwared â pheiriannau ffrio dwfn a'u bod wedi gosod poptai cyfun rhaglenadwy yn eu lle, a'u bod hyd yn oed wedi gosod paneli solar a'u bod wedi disodli offer coginio nwy gydag offer trydan, gan eu galluogi i ddefnyddio ynni adnewyddadwy i leihau mwy fyth ar y costau.

6.55 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen buddsoddi a chynllunio gofalus er mwyn cyflymu'r broses o symud oddi wrth ddefnyddio peiriannau ffrio dwfn a sicrhau gweithredu cyson ledled Cymru. Er na chynhwysir unrhyw gyllid penodol ar gyfer awdurdodau lleol, mae dull Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar annog awdurdodau lleol i gael gwared â pheirannau ffrio dwfn ar adegau pan fydd angen eu hadnewyddu'n naturiol – er enghraifft, pan fydd y peiriannau wedi cyrraedd diwedd eu hoes weithredol. Mae'r strategaeth raddol hon yn ategu gwelliannau graddol mewn seilwaith, heb osod beichiau ariannol uniongyrchol, ond mae'n parhau i gydymffurfio â'r Rheoliadau diwygiedig (nid yw'r Rheoliadau yn gwahardd yr arfer o ddefnyddio peiriannau, ond nodir y dylid darparu'n anamlach fwydydd sydd wedi'u ffrio'n ddwfn). Ystyriwn y gellir talu'r costau cysylltiedig – fel gosod poptai cyfun – oddi mewn i fframweithiau cyllidebol presennol h.y. lle bydd awdurdodau lleol yn integreiddio'r newidiadau hyn mewn cylchoedd caffael a chynnal a chadw cyfalaf rheolaidd dros amser. Mae'r dull hwn yn cydbwyso uchelgais gydag ymarferoldeb, gan alluogi cynnydd tuag at arferion coginio iachach a pharchu cyfyngiadau ariannol cyfredol.

6.56 Bydd Rheoliadau 2025 yn cael eu dilyn gan Ganllawiau Statudol. A gellir dadlau bod y canllawiau hyn yn esgor ar 'gost ymgyfarwyddo' i awdurdodau lleol a staff arlwyo mewn ysgolion, a fydd angen amser i adolygu a deall y gofynion newydd. Ond disgwylir i'r gwaith hwn fod yn niwtral o ran cost, oherwydd mae staff arlwyo eisoes yn adolygu ac yn diweddaru bwydlenni'n rheolaidd, ac maent yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi'n rheolaidd fel rhan o'u cyfrifoldebau arferol. Gellir cynnwys y

broses ymgyfarwyddo yn eu llif gwaith presennol, heb fod angen staffio nac adnoddau ychwanegol. Ond pe bai angen hyfforddiant y tu hwnt i'r trefniadau hyn, amcangyfrifir y byddai cyfanswm y gost ar gyfer 3 awr o hyfforddiant gogyfer yr holl staff arlwyo, ar draws 1,199 o ysgolion cynradd, gan ragdybio 5 aelod staff ar gyfer pob ysgol a delir ar gyfradd o £14 yr awr, oddeutu £250,000[13].

6.57 Fel y nodwyd, byddai'r costau hyn yn cael eu lliniaru fel rhan o ddull 'busnes fel arfer' o ymdrin â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, a gellir darparu ar eu cyfer fel rhan o ddulliau gweithredu a gynlluniwyd yn lleol cyn i Reoliadau 2025 ddod i rym. Mae gan bartneriaid 9 mis i ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd, yn ychwanegol at yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r cynigion rheoleiddio drafft newydd a'r canllawiau newydd gael eu cyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Mai 2025.

<u>Cyflenwyr</u>

6.58 Ar ôl dadansoddi ymatebion y cyflenwyr i'r ymgynghoriad, gwelwyd y bydd angen mynd ati'n bwrpasol, o bosibl, i weithgynhyrchu rhai eitemau sy'n cynnwys 50% o garbohydradau startsh grawn cyflawn – sef eitemau na fyddant ar gael yn eang, o bosibl. Gallai hyn olygu y bydd awdurdodau lleol yn cyrchu darpariaethau oddi allan i Gymru, er mwyn lleihau costau. Mewn perthynas ag ail-lunio cynhyrchion i fodloni'r safonau newydd, nododd y cyflenwyr y bydd angen buddsoddi, o bosibl, mewn gwaith i ddatblygu cynhyrchion newydd, ac y gallai hynny effeithio ar brisiau. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i barhau i ddewis cynhyrchion o Gymru, mae Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn meddu ar arbenigedd i gynorthwyo busnesau i addasu ac ail-lunio pan fo modd a bydd yn parhau i ymgysylltu â chyflenwyr ar faterion sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Ymhellach, mae'n bosibl y bydd ail-lunio cynhyrchion i fodloni safonau bwyd ysgol Cymru yn effeithio ar fusnesau sy'n cyflenwi ysgolion mewn rhannau eraill o'r DU – gan gynyddu'r mathau o gynhyrchion sydd ar gael a chan gynyddu, o bosibl, y costau cynhyrchu / gweithgynhyrchu. Ond fel gwrthbwynt, ceir potensial i gynyddu'r galw am y cynhyrchion hyn mewn rhannau eraill o'r DU yn y dyfodol, pe bai gweinyddiaethau eraill yn newid y rheoliadau mewn ffordd debyg ac mewn ymateb i gyngor deietegol y DU.

6.59 Efallai y bydd cynhwysion mwy amrywiol (e.e. cynnydd yn y gwahanol fathau o ffrwythau a llysiau a ddarperir) yn arwain at gostau rheoli uwch ar gyfer archebu, storio a rheoli stoc; er, mae adborth gan awdurdodau lleol yn dangos bod nifer ohonynt eisoes yn rhoi'r safonau hyn ar waith yn

[13] Cafodd y cyfanswm hwn ei amcangyfrif trwy ddefnyddio Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion Cymru 2025, Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2024 ac adborth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

ymarferol. Ymhellach, gallai Rheoliadau 2025 effeithio'n negyddol ar fusnesau amaethyddiaeth a bwyd sy'n cyflenwi bwydydd yr ydym am gyfyngu arnynt mewn prydau ysgol. Fodd bynnag, gallai'r Rheoliadau newydd hefyd fod o fudd i gymunedau gwledig drwy ddarparu cyfleoedd i annog defnydd pellach o gynnyrch lleol, cynaliadwy, gan gysylltu â'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a defnyddio'r gadwyn gyflenwi leol o'r fferm i'r fforc.

6.60 Gall Partneriaethau Bwyd Lleol, sydd bellach wedi'u sefydlu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, hefyd arwain at gydlynu prosiectau bwyd lleol yn strategol a chreu cyfleoedd cyflenwi newydd drwy gysylltu rhanddeiliaid bwyd lleol. Bydd cysylltu ffermwyr â sefydliadau ehangach ar hyd y gadwyn gyflenwi yn ategu amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er enghraifft, mae'r cynnydd mewn ffrwythau a llysiau yn rhoi cyfle i gynyddu cynhyrchiant lleol. Mae parhau i weithio gyda'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru i ddatblygu cyfleoedd newydd i gynyddu'r cyflenwad lleol yn hanfodol.

6.61 Yn achos unrhyw gynnydd mewn costau a ysgwyddir gan gyflenwyr, mae yna bosibilrwydd y bydd y cynnydd hwnnw'n cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol (yn rhannol, o leiaf) ar ffurf prisiau uwch ac felly gallai eisoes fod wedi'i adlewyrchu yn y drafodaeth uchod. .

Teuluoedd

6.62 Ar hyn o bryd, mae'r effaith ariannol bosibl a gaiff y cynigion ar deuluoedd yn parhau i fod yn ansicr. Mynegwyd pryderon gan rai rhieni a ymatebodd i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r ffaith y gallai eu plant ddewis peidio â chymryd prydau ysgol am ddim, neu elfennau o'r arlwy, gan na fyddent yn hoffi'r arlwy diwygiedig, gan arwain at gostau ychwanegol o ran darparu pecynnau cinio. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd cyflwyno safonau maeth gwell yn annog rhieni eraill i ganiatáu i'w plant gael prydau ysgol am ddim yn amlach, gan leihau costau bwyd yr aelwyd a chan ategu arferion bwyta iachach. Yn y pen draw, mae dulliau gweithredu a lunnir ac a gyflawnir gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn hollbwysig o ran ymgysylltu gyda dysgwyr a'u teuluoedd, gan ddatblygu bwydlenni newydd a'u hymgyfarwyddo â nhw a chan hyrwyddo arlwy bwyd yr ysgol mewn modd effeithiol er mwyn helpu i sicrhau y bydd cyfran helaeth o'r dysgwyr yn dewis prydau ysgol am ddim. Gall cynlluniau a chymorth gweithredu effeithiol gyfrannu at yr agenda hon, gan gynnig adnoddau ochr yn ochr â chanllawiau cryfach a fydd yn cynorthwyo mwy fyth ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau presennol, yn cynnwys hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac annog dysgwyr i fwyta prydau ysgol. Bydd parhau i ymgysylltu â CLILC ac awdurdodau lleol yn help i ddeall a oes angen cymorth pellach yn y dyfodol.

## Casgliad

6.63 Er mwyn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno rheoliadau newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau gyda phartneriaid cyflenwi. Mae hyn wedi cynnwys cyd-ddatblygu cynigion drafft gyda rhanddeiliaid, profion a myfyrio cyn ymgynghori, a gweithdai i gefnogi partneriaid i ddeall newidiadau allweddol fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r ymdrechion hyn wedi helpu i gefnogi rhai awdurdodau lleol i ddechrau cyflawni'r hyn a fwriedir o dan Reoliadau 2025.

6.64 Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes modd meintoli'r goblygiadau cost llawn sy’n gysylltiedig â gweithredu Rheoliadau 2025. Mae gwahaniaethau o safbwynt cyfrifyddu costau, strwythurau arlwyo, a chaffael ar draws awdurdodau lleol yn arwain at gryn amrywioldeb, ac mae ffactorau fel newidiadau mewn chwyddiant a gweithrediadau cadwyni cyflenwi yn cymhlethu ymhellach amcangyfrifon dibynadwy. Fodd bynnag, cyn Rheoliadau 2025, cododd Llywodraeth Cymru y gyfradd a delir i awdurdodau lleol am bob pryd o £3.20 i £3.40 y pryd o fis Medi 2025 – gan amlygu ein hymrwymiad i fwyd ysgol a'i botensial i sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr yng Nghymru.

6.65 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro dull cyflwyno Rheoliadau 2025 ac yn ystyried hyn ochr yn ochr ag unrhyw adolygiad o gyfradd fesul uned Prydau Ysgol Gynradd Cyffredinol am Ddim er mwyn sicrhau y bydd y cyllid yn parhau i gyd-fynd â’r realiti o ran gweithredu. Ni ddylai unrhyw elfennau anhysbys ein hatal rhag cymryd camau, yn enwedig o gofio’r gost sydd ynghlwm wrth beidio â gweithredu. Bydd unrhyw gostau a ysgwyddir dros amser trwy ddiweddaru’r Rheoliadau yn fuddsoddiad hirdymor, ataliol yn iechyd y cyhoedd, yn hytrach nag yn rhwystr a fydd yn atal safonau cryfach.

6.66 Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu, mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau Canllawiau Statudol ar gyfer arlwywyr i gefnogi sut y maent yn dehongli a chymhwyso gofynion newydd ac, ar wahân, yn cryfhau Canllawiau Statudol ar hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan egluro rolau a chyfrifoldebau o fewn y system bwyd ysgol. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae dulliau gweithredu a lunnir ac a gyflawnir gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn hollbwysig o ran ymgysylltu â dysgwyr a’u teuluoedd, datblygu bwydlenni gyda nhw mewn golwg a'u hymgyfarwyddo â'r bwydlenni newydd hyn, a hyrwyddo arlwy bwyd yr ysgol mewn modd effeithiol er mwyn helpu i sicrhau y bydd cyfran helaeth o’r dysgwyr yn dewis prydau ysgol am ddim.

## <u>Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir</u>

6.67 Yn **Opsiwn 1** ni chynigir newid Rheoliadau 2013 mewn unrhyw ffordd. Lluniwyd y rheoliadau hyn dros 10 mlynedd yn ôl ac nid ydynt mwyach yn adlewyrchu argymhellion deietegol cyfredol Llywodraeth y DU. Trwy ddarparu prydau ysgol nad ydynt yn cyd-fynd ag argymhellion deietegol, cyfyngir ar yr effaith gadarnhaol a gaiff y ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd a'r arlwy ehangach mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, a byddai'n arwain at golli cyfleoedd i fwyd ysgol gynyddu ei gyfraniad at wella iechyd, llesiant a chyrhaeddiad dysgwyr oedran cynradd yn yr ysgol.

6.68 Mae **Opsiwn 2** yn cynnig cyfle i gyd-fynd ag argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU a dengys y dystiolaeth fod gofynion bwyd/maeth diwygiedig, a ddarperir mewn cyd-destun 'dull ysgol gyfan' o ymdrin â bwyd, yn strategaeth hirdymor effeithiol ar gyfer gwella maeth ac ymddygiadau bwyta'n iach.

6.69 Nid ystyrir y byddai dull 'busnes fel arfer' yn drech na'r manteision sy'n gysylltiedig â diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn cyd-fynd yn well ag argymhellion deietegol Llywodraeth y DU. Mae gwneud Rheoliadau 2025 o dan **Opsiwn 2** yn creu cyfle i adeiladu ar gryfderau'r Rheoliadau presennol ynghyd â'u mireinio ymhellach er mwyn sicrhau bod bwyd a diod mewn ysgolion yn cynnig maethynnau hanfodol, ac er mwyn sicrhau y cyfyngir ar fraster dirlawn, siwgr a halen. Er bod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig yn ansicr ar hyn o bryd, ceir cyfleoedd i arbed costau a chyflwyno ychwaneg o arbedion effeithlonrwydd wrth roi pethau ar waith yn ymarferol. Ymhellach, dylid gwrthbwyso'r cynnydd posibl yn y costau yn erbyn yr agenda hirdymor, ataliol a'r posibilrwydd y bydd y polisi'n cyfrannu at leihau'r costau parhaus sydd ynghlwm wrth ordewdra yng Nghymru. Ystyrir bod dilyn **Opsiwn 2** yn fuddsoddiad hirdymor yn iechyd y cyhoedd.

6.70 Felly, nid **Opsiwn 2**yw'r opsiwn a ffefrir.

## 7. Asesiad o'r gystadleuaeth

7.1 Mae gan y newidiadau arfaethedig i Reoliadau 2013 y potensial i effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad cyflenwi bwyd ysgol. Nododd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad y gallai ail-lunio cynhyrchion i fodloni'r safonau newydd olygu buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu cynhyrchion newydd – sef rhywbeth a allai ffafrio cyflenwyr mwy a chanddynt y capasiti i arloesi a chydymffurfio. Mae'r mwyafrif o fusnesau bwyd Cymru yn gyflenwyr llai neu leol, a allai wynebu heriau o ran bodloni'r gofynion newydd, yn enwedig pan fo angen mynd i'r afael â gweithgynhyrchu pwrpasol neu swmpbrynu.

7.2 Hefyd, gallai'r cynnydd yn amrywiaeth y cynhwysion a'r safonau uwch o ran ansawdd maeth effeithio ar brisiau cyflenwyr a'r modd y cynllunnir bwydlenni.

7.3 Fodd bynnag, mae dull Llywodraeth Cymru yn ceisio cydbwyso uchelgais gydag ymarferoldeb trwy annog awdurdodau lleol i wneud yn fawr o gadwyni cyflenwi lleol a mabwysiadu ffyrdd hyblyg o gynllunio bwydlenni. Bwriad dulliau gweithredu ac ymgysylltu parhaus sydd wedi'u cynllunio'n ofalus yw lliniaru risgiau a hyrwyddo cystadleuaeth deg. Yn olaf, ni fydd y rheoliadau'n dod i rym am gryn dipyn o amser (byddant yn dod i rym ym mis Hydref 2026), felly bydd digon o amser ar gael i fyfyrio, cydweithio a chynllunio.

**8. Adolygu ar ôl gweithredu**

8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu effaith y Rheoliadau arfaethedig hyn. Bydd rhwydweithiau sydd wedi hen ennill eu plwyf gydag ysgolion, awdurdodau lleol, cyflenwyr a chyfanwerthwyr yn gwella cyfleoedd i drafod ac adolygu dulliau gweithredu, er mwyn paratoi ar gyfer yr adeg pan ddaw'r Rheoliadau i rym ym mis Hydref a thu hwnt. Bydd hyn yn cynnig dolen adborth ar gyfer y polisi, gan ategu newidiadau i ddulliau gweithredu yn y dyfodol. Bydd cyfathrebu parhaus â phartneriaid cyflenwi yn sicrhau bod cynnydd o ran gweithredu yn cael ei fwydo'n ôl i swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyried y risgiau a'r manteision a nodwyd uchod.

8.2. Bydd adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1 o'r rhaglen Prydau Ysgol Gynradd Cyffredinol am Ddim (UPFSM), sydd i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2026, yn rhoi mewnwelediadau cynnar gwerthfawr i'r system bwyd ysgol yng Nghymru cyn i Reoliadau 2025 ddod i rym. Mae'r data a gasglwyd hyd yma yn cynnwys gwybodaeth ansoddol am ymddygiadau deietegol, lles a

chanfyddiadau o amgylcheddau bwyd ysgolion, a gasglwyd gan blant, teuluoedd, staff ysgol a rhanddeiliaid eraill.

8.3. Bydd cynnal camau cychwynnol y gwerthusiad UPFSM yn y cyd-destun cyn rheoleiddio hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i archwilio effaith bosibl Rheoliadau 2025. Bydd camau gwerthuso yn y dyfodol yn parhau i fonitro'r effeithiau hyn, gan gefnogi’r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

8.3 Ymhellach, bydd dulliau monitro a gwerthuso’n cael eu hystyried fel rhan o ymdrechion i fesur a meintioli effaith y polisi newydd hwn. Efallai fod amrywiaeth o gyfleoedd yn bodoli eisoes ar gyfer cynorthwyo i fonitro a gwerthuso unrhyw newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys setiau data a dangosyddion addysg ac iechyd presennol y gellir eu cymharu dros amser.